

Eglwys Dewi Sant

Mae Eglwys Dewi Sant a'r tir o'i hamgylch wedi ei lleoli mewn safle cyfleus a dymunol ar ochr ogleddol y pentref ac yn agos i'r briffordd.

Adeiladwyd yr eglwys yn ystod degawd cynta'r ganrif, gyda'r gwaith yn cael ei gwblhau ym 1909. Disgrifir hi fel Eglwys Genhadol o fewn plwyf eglwysig Llanfihangel Genau'r Glyn lle bu Eglwys Sant Mihangel, y fam eglwys ar sawl ffurf ers dros ddwy ganrif.

Er i Eglwys Dewi Sant fod mewn bodolaeth ers 90 mlynedd, gellir fodd bynnag ei hystyried yn fodern o'i chymharu â'r mwyafrif helaeth o eglwysi yn y wlad, sydd wedi bodoli dros gyfnod o ddwy i dair canrif.

Nid yr eglwys bresennol oedd y cyntaf i'w hadeiladu yn Nhal-y-bont. Roedd yna un flaenorol o ansawdd llai parhaol, gyda'r to a'r gragen allanol wedi eu gwneud o haearn sinc rhychog a daethpwyd i'w hadnabod yn lleol fel yr Eglwys Sinc. Roedd yr Eglwys Sinc yn ateb y galw gan adlewyrchu'r cyfnod o ddiwygiad

St. David's Church

St. David's Church with its grounds is conveniently located on a pleasant site on the north side of the village and close to the main road.

The church was built during the first decade of the twentieth century, its erection being completed in 1909. It has been classified as a Mission Church within the ecclesiastical parish of Llanfihangel Genau'r Glyn where St. Michael's, the mother church has stood in several forms for upwards of two centuries.

Although St. David's Church has been in existence for 90 years it nevertheless can be regarded as modern when compared with the vast majority of churches in the Principality which have existed over periods of two to three centuries.

The present church was not the first church to be built in Tal-y-bont. There was a previous one of a more temporary nature, the roof and outside shell of which were constructed of galvanised corrugated iron and which became known in the locality as the Zinc Church. The Zinc Church served its



Eglwys Dewi Sant

St. David's Church

crefyddol a fodolai ar y pryd – ac yn wir golygai anghenion lleol fod angen eglwys a oedd yn fwy o faint ac o ansawdd mwy parhaol. Daeth hyn yn bosibl drwy ymdrechion aelodau lleol y gymuned ynghyd â chefnogaeth amrywiol gyrff. Dengys placiau ar amrywiol ddodrefn a chyfarpar o fewn yr eglwys gefnogaeth ac ymrwymiad cryf teuluoedd lleol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Daeth yr Eglwys Sinc a godwyd ar safle gwahanol – sef y llain o dir lle saif 'Henllan' heddiw – yn ddiangen. Tynnwyd yr adeilad i lawr a'i ailadeiladu fel Eglwys Genhadol ar safle ger Nebo ac wrth ymyl y briffordd o Lanrhystud i Dalsarn a Llanbed. Mae'n amlwg fod yr eglwys a'r adeiladwaith wedi eu cynnal a'u cadw yn dda ac mae'r eglwys ar gael ar gyfer addoli cyson hyd heddiw – enghraifft o dros dro yn mynd yn parhaol.

Fel eglwys 'loeren', ni chafodd eglwys Tal-y-bont ficer preswyl ei hun ers nifer o flynyddoedd. Ficer y plwyf sydd yn delio â materion yr eglwys am y tro. Yn hyn o beth bu'r plwyf yn ffodus dros y blynyddoedd iddi gael ei gwasanaethu

purpose well reflecting the period of religious revival of the time – so much so that the needs of the locality called for a larger church building of a more permanent nature. This became possible through the efforts of local members of the community with the support of various bodies. Plaques attached to various items of church furnishings and equipment are evidence of the strong support and devotion of local families of the time.

The Zinc Church, erected on a different site – namely the plot of land on which the residential property of 'Henllan' currently stands – became redundant. The building was dismantled to be re-erected as a Mission Church on a site near Nebo and adjacent to the main road from Lanrhystud to Talsarn and Lampeter. The church and fabric have obviously been well maintained and up to the present the church is available for regular worship – a case of a temporary having assumed permanency.

As a 'satellite', Tal-y-bont church has not had a resident priest of its own for many years. Church matters are vested in the vicar of the parish for the time being. In this respect over the years the parish has been



Plant ac athrawon yr Ysgol Sul gyda Gwilym Roberts, yr arolygwr.

Children and teachers of the Sunday School with Gwilym Roberts, the superintendent.

gan gyfres o ficeriaid a dreuliodd gyfnodau hir yno.

Golygodd newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf fod plwyfi penodol yn cael eu grwpio ynghyd. Yn ein hachos ni grwpiwyd plwyf Llanfihangel Genau'r Glyn a phlwyf cyfagos Llangorwen gyda'i gilydd gan rannu'r un ficer. Bu'r trefniant hwn mewn bodolaeth ers ryw 8 mlynedd bellach a bu'n llwyddiannus.

Douglas Jones

fortunate in that it has been well served with a sequence of long serving incumbents.

Changes brought about in recent years have dictated the grouping together of certain parishes. In our case the parishes of Llanfihangel Genau'r Glyn and the neighbouring parish of Llangorwen have been grouped together sharing one and the same incumbent. This arrangement has been operative for some 8 years and has been successful.

Douglas Jones

Atgofion Sylvia Johnson / Sylvia Johnson's Memories

Ar yr ochr ddwyreiniol i'r Ceulan mae tŷ o'r enw Henllan am ei fod wedi ei adeiladu lle'r oedd y llan hyd ddechrau'r ganrif. Adeilad bach o sinc ydoedd a byddai pobl y pentref yn gorfod croesi'r Ceulan i fynd iddo.

Erbyn dechrau'r ganrif yr oedd yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn a phenderfynwyd codi'r eglwys bresennol yn 1909. Nid oedd modd dodrefnu'r eglwys yn urddasol. Bocs o bren haenog wedi ei orchuddio â brethyn oedd yr allor. Yn 1939, ychydig cyn y Rhyfel, daeth gwraig o'r enw Mrs Humphreys fel faciwi i'r ardal. Yr oedd yn addoli'n gyson yn yr eglwys a phan welodd gyflwr tlodaidd yr allor penderfynodd anrhegu'r eglwys ag allor ardderchog sydd yno heddiw.

Ar ôl y rhyfel rhoddwyd gwydr lliw yn y ffenestr ddwyreiniol er cof am deulu Knighton-Jones, y Llew Gwyn. Roedd dau fab yn offeiriaid sef y Canon Knighton-Jones a'r Parchedig Ficer Cecil Jones.

Yn yr hen ddyddiau yr oedd nifer o deuluoedd cefnog yn aelodau; y teulu Davies, perchnogion Plas Penpompren, yn ddiweddarach, teulu Clifford Brown, deiliaid y plas, teulu Anwyl, Llysterfyn a theulu Thomas oedd yn cynnal fferm fagu ceffylau yn Tanyrallt. Byddai Miss Susan Jenkins yn cynnal te parti yn ei chartref, Mertyn, pan ddeuai'r esgob heibio.

Yr oedd yr Ysgol Sul yn gryf a gweithgar. Adeg y Nadolig byddai nifer o'r aelodau yn helpu i wisgo'r plant yn addas mewn papur crêp lliwgar a thinsel i berfformio dramau am wlad y Tylwyth Teg yn y Neuadd Goffa Hyffordd hwy i ganu a dawnsio gan Miss Mary Jones, y Llew Gwyn. Pris mynediad oedd: seddau blaen, 1/11, (swllt ac unarddeg ceiniog), seddau ôl, 1/3 (swllt a thair ceiniog).

Bu Mrs. Pugh-Davies yn organydd am 61 o flynyddoedd. Yn ddiweddar rhoddwyd yr hen harmoniwom o'r neilltu pan gafwyd organ drydan yn anrheg gan Mr a Mrs Douglas Jones, Brooklyn.



Yr Eglwys Sinc / The Zinc Church

The house named Henllan on the eastern side of the Ceulan is so called because it is situated where the church (llan) used to stand. It was a small zinc structure and the villagers had to cross the Ceulan to get there.

By the beginning of the century it was in a very poor condition and it was decided to build today's church in 1909.

It was not possible to have fine furnishings for the church. The altar was just a plywood box covered in material. In 1939, just before the war a Mrs

Humphreys was evacuated to the parish and became a regular member. Seeing the poor state of the altar, she presented the church with a fine altar which is still there.

After the war a stained glass east window was put in place to commemorate the Knighton-Jones family of the White Lion. Two sons entered the church, namely, Canon Knighton-Jones and the Reverend Vicar, Cecil Jones.

In the old days some well-to-do Tal-y-bont families were members; the Davies family, owners of Penpompren Hall, and, later, the Clifford Browns who lived there, the Anwyl family of Llysterfyn and the Thomas family who owned a stud farm at Tanyrallt. When the Bishop paid a visit Miss Susan Jenkins or Mertyn held a tea party in her home.

The Sunday School was strong and active and at Christmas time the members helped to dress the children in colourful crepe paper and tinsel for a performance of plays about Fairyland in the Memorial Hall. They were taught to sing and dance by Miss Mary Jones of the White Lion. Admission to the front seats was 1/11 (one shilling and eleven pence) and to the rear seats 1/3 (one shilling and three pence).

Mrs Pugh-Davies was the organist for 61 years. Recently, the old harmonium was replaced by an electric organ, presented to the church by Mr and Mrs Douglas Jones of Brooklyn.